PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 22 MAWRTH 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Chowdhury, Henshaw, Hunt, Thomson a/ac Waldron |

## 59 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Ferguson-Thorne a Stubbs

## 60 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

## 61 : YMATEB Y CABINET I YMCHWILIAD GWEITHIO GARTREF A GWEITHIO YSTWYTH Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor gan y Cabinet gyda'r ymateb ffurfiol i ymchwiliad a gynhaliwyd gan y pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad (APaPh) blaenorol, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd David Walker. Roedd y Cynghorydd Henshaw yn aelod o'r grŵp gorchwyl a gynhaliodd yr ymchwil hwn, ac o'r herwydd cyflwynodd ef i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2022. Cytunwyd ar ymateb y Cabinet ym mis Ionawr, ac mae gan yr Aelodau gyfle i glywed sut y derbyniwyd y 9 argymhelliad, p'un a ydynt wedi llywio gwaith datblygu polisi ar weithio hybrid hyd yma a pham na chafodd rhai argymhellion eu derbyn yn llawn.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad a Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad ac wedyn gofynnodd Chris Lee i fynd â'r Aelodau drwy ymateb a chyflwyniad y Cabinet. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod proses adolygu ac adnewyddu barhaus gan ei bod yn bwysig peidio â chloi ein hunain i bethau na ellir eu newid.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r Pwyllgor yn edrych ar y polisïau a dywedodd y Swyddogion y byddent yn dod yn ôl i'r pwyllgor ym mis Ebrill.

Roedd yr Aelodau o'r farn ei fod yn adroddiad da a chytunon nhw â'i gasgliadau. Ychwanegodd yr Aelodau fod gweithio gartref yn opsiwn da i staff mwy profiadol ond eu bod yn poeni am ddechreuwyr newydd heb yr agwedd gymdeithasol ar fod mewn tîm yn gorfforol. Gofynnodd yr Aelodau beth oedd rheolwyr yn ei wneud i ddyneiddio'r profiad. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod staff wedi cael eu holi am eu profiadau yn ystod y cyfnod clo ac yn fwy diweddar lle mae mwy o hyblygrwydd.

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl fod gwell ganddynt weithio gartref gyda rhywfaint o amser yn cael ei dreulio yn y swyddfa.  Bydd angen i reolwyr sicrhau bod cyfleoedd i weithio fel tîm i annog bondio, i ystyried morâl staff, i roi hyfforddiant wyneb yn wyneb ac i ystyried yr agweddau cymdeithasol.  Mae'n bwysig cofio bod gan bobl wahanol anghenion gwahanol ac mae hyblygrwydd yn allweddol. Mae arweiniad a hyfforddiant ar gael i reolwyr ynglŷn â hyn.

Gofynnodd yr Aelodau sut y gellid sicrhau y bydd staff ar lefelau gwahanol yn cymryd rhan lawn yn yr adolygiadau a phwysleision nhw bwysigrwydd peidio â cholli golwg ar ddatblygu'r gweithlu a datblygu gyrfaoedd.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o strategaeth y gweithlu a'r strategaeth lles y mae'r ddau yn ystyried yr effaith ar y gweithlu. Roedd y Cabinet wedi derbyn y ddwy strategaeth ac yn awr bydd gwaith yn dechrau ar y gwaith polisi manwl, a fydd yn dod yn ôl i'r pwyllgor.

Trafododd yr Aelodau Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth a gofynnon nhw am amserlenni.  Dywedodd y Swyddogion y bydd cynlluniau 2023/24 yn dangos bod y polisi hybrid wedi'i ymwreiddio.

Trafododd yr Aelodau yr argymhelliad ynghylch yr uwch dîm rheoli ac adolygiadau rheolaidd a nodon nhw y newid enfawr o weithio yn y swyddfa i weithio gartref a gweithio hybrid.  Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod datganiadau uwch reolwyr yn bwysig.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyfleoedd i fonitro hyn drwy'r Pwyllgor Craffu, Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet.  Mae materion y gweithlu yn cael eu hystyried fel rhan o'r fframwaith perfformiad.  Mae ymateb y Cabinet yn seiliedig ar gyngor gan y Prif Weithredwr, mae'r Aelodau yn cael eu gwahodd i brofi hyn a sicrhau ei fod yn gweithio.

CYTUNWYD: i nodi ymateb y Cabinet.

## 62 : STRATEGAETH GYFRANOGI

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Julie Sangani, yr Aelod Cabinet dros Iechyd y Cyhoedd a Chydraddoldeb; Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol; Gary Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd; Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Dylan Owen, Rheolwr Gweithredol Polisi a Pherfformiad a Claire Owens, Prif Swyddog Ymchwil ac Ymgynghori

Atgoffwyd yr Aelodau, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, fod ganddynt gyfrifoldeb am unrhyw bolisi'r Cyngor a ddatblygir i fynd i'r afael ag ymgysylltu ac ymgynghori â dinasyddion. Mae angen i gynghorau ledled Cymru ddatblygu a chyhoeddi strategaeth ar annog cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2021. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau bod y Strategaeth Gyfranogi yn mynd i'r afael â ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o waith aelodau a sut i ddod yn aelod o'r Cyngor. Felly, mae cyflawni'r strategaeth hon yn gydweithrediad rhwng swyddogaeth Polisi a Pherfformiad y Cyngor a'i swyddogaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sangani i wneud datganiad ar y Strategaeth Gyfranogi, ac ar ôl hynny rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i graffu ar ddatblygiad polisi'r Strategaeth Gyfranogi. Roedd yr Aelodau'n falch o weld cyflwyniad cynhwysfawr o waith datblygu hyd yma, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau a glywir yn anaml yn y ddinas. Cytunodd yr Aelodau fod cynrychiolaeth yn bwysig, mae'r strategaeth yn ymwneud â gwrando a rhaid iddi gyrraedd pob cymuned i sicrhau bod Cyngor Caerdydd yn agored ac yn sicrhau y gall lleisiau lleol ddylanwadu ar benderfyniadau lleol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y strategaeth ar gam cynnar, bod y canllawiau statudol y mae swyddogion yn eu dilyn yn rhai drafft ac y gallent newid, ac er gwaethaf gweledigaeth fawr y Cyngor ar gyfer gosod cymunedau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau a'i ddyhead ar gyfer cynwysoldeb, bod rhaid cyflawni'r strategaeth hon heb fudd adnoddau ychwanegol.

Lliniaru cyfraddau ymateb isel gan grwpiau lleiafrifol.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed y bu gwelliant mewn cyfraddau ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad, yn enwedig o ystyried sgyrsiau'r Aelodau gyda'r tîm ymchwil i gasglu gwybodaeth gymunedol, a gwaith mapio rhanddeiliaid i wella cyrhaeddiad.

Nododd yr Aelodau fod ymateb grwpiau ieithoedd lleiafrifol i'r ymgynghoriad diweddar ar y gyllideb yn isel a'u bod yn falch o glywed y bydd y Swyddogion yn parhau i weithio ar hyn ac yn manteisio ar y cyfle i integreiddio gwybodaeth ac adnoddau ar draws y Cyngor wrth iddynt ddatblygu'r Strategaeth Gyfranogi.

Cau'r cylch adborth

Roedd yr Aelodau o'r farn mai'n anaml oedd cyhoeddiadau sgleiniog yr ateb o ran bwydo canlyniadau ymgynghoriadau yn ôl. Cydnabu'r Swyddogion fod angen i'r Cyngor wella ar y mater hwn.

Cryfhau'r cysylltiad â pherfformiad

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y bwriad i gryfhau arferion ymgysylltu corfforaethol trwy gysylltu data canfyddiad dinasyddion a gesglir gan bob gwasanaeth â'r fframwaith perfformiad, a thrwy ddatblygu elfen canfyddiad dinasyddion yng Nghynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth.

Cyfleoedd partner

Cytunodd yr Aelodau â barn y swyddog bod lle i gydweithio'n sylweddol â phartneriaid y Cyngor ar ymgynghori cynhwysol, yn enwedig o ystyried goblygiadau ariannol estyn allan i bob iaith leiafrifol. Nododd yr Aelodau fod cyfieithu digidol eisoes wedi'i archwilio a nodon nhw hefyd fod partneriaid wedi cynnal dadansoddiad canfyddiad dinasyddion a chael mewnwelediad i gymunedau y gallem eu rhannu.

Rhwystrau economaidd-gymdeithasol

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb arbennig mewn sut i oresgyn y rhwystrau i ymgynghori â grwpiau economaidd-gymdeithasol incwm isel. Nododd yr Aelodau y ffocws ar arwyddion daearyddol mewn gwaith datblygu hyd yma, a bod cydnabyddiaeth bod ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r grwpiau hyn yn bwysig iawn, ond bod cyfle i archwilio unrhyw rwystrau a allai fod yn dieithrio'r grwpiau hyn ymhellach.

Ymgynghoriad ar ddatblygu polisi

Dywedodd yr Aelodau y byddai ymgynghori â thrigolion ar ddatblygu polisi yn ymestyn ymgysylltu'r Cyngor, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu a dylunio gwasanaethau, i ymgysylltu sydd â mwy o ddylanwad. Dywedwyd wrth yr Aelodau y myfyrir ar hyn.

Cefnogi amrywiaeth wrth sefyll etholiad

O ran gofynion Gwasanaethau Democrataidd y Strategaeth Gyfranogi, cytunodd y Pwyllgor fod yr Aelodau'n dal yr allwedd i wybodaeth gymunedol a chroesawodd y bwriad i gynnal digwyddiad ymgysylltu i bob Aelod ym mis Mai 2023 fel rhan o ddatblygiad parhaus y Strategaeth. Nododd yr Aelodau hefyd bwysigrwydd cyfathrebu a chroesawon nhw ddatblygiad cynllun cyfathrebu democratiaeth.

Cydweithredu rhwng pleidiau gwleidyddol

Roedd yr Aelodau o bob plaid ar y Pwyllgor o'r farn bod cyfle i gydweithio/am gysylltiadau agosach cyn etholiad ar draws pleidiau gwleidyddol, wrth baratoi darpar ymgeiswyr newydd sy'n ystyried a ddylent sefyll mewn rôl etholedig ai peidio, ac wrth gefnogi ymgeiswyr wrth iddynt baratoi ar gyfer etholiad. Dylai'r cydweithredu hwn gael ei seilio ar rôl Cynghorydd wrth wasanaethu ei gymuned. Nododd yr Aelodau y bwriad i gynnwys cymorth ychwanegol i aelodau annibynnol a sicrhau gwell cyfathrebu rhwng y Cyngor a grwpiau gwleidyddol.

Nodweddion gwarchodedig.

Croesawodd yr Aelodau y mentrau arfaethedig i sicrhau bod aelodaeth y Cyngor yn adlewyrchu'n agosach y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Roedd yr Aelodau o'r farn y gallai fod angen mwy o waith i archwilio'r cymorth a roddir i'r Aelodau mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cronfa Gymorth

Cyfeiriodd y Swyddogion at gronfa gymorth a oedd ar gael i gefnogi darpar ymgeiswyr o grwpiau lleiafrifol i sefyll etholiad. Gofynnodd yr Aelodau i fwy o wybodaeth am hyn, ei bwrpas a sut y gall unigolion gael mynediad i'r gronfa gael ei rhannu gyda'r Pwyllgor.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu sylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

63 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd diweddariad byr i'r Aelodau ar yr Adroddiad Craffu Blynyddol ar gyfer 2022/23, y gofynnwyd iddynt gytuno arno fel crynodeb cywir o waith y pwyllgor hyd yma. Atgoffwyd yr Aelodau fod un Adroddiad Craffu Blynyddol yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor bob blwyddyn, gan gofnodi gwaith pob un o'r 5 pwyllgor craffu.

PENDERFYNWYD: derbyn yr adroddiad gan ystyried sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Ash-Edwards.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Cadeiryddion Craffu wedi cytuno i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen craffu ar y cyd, yn cynnwys Cadeiryddion y pum Pwyllgor Craffu a dau wirfoddolwr o bob pwyllgor. Mae angen sefydlu'r grŵp gorchwyl cyn gynted â phosibl i gynllunio gwaith ar Strategaeth a Ffefrir y CDLIN, a drefnwyd i fynd allan i ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2023. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn sefydlu'r Cylch Gorchwyl ei hun. Ac, ar ôl cymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir, rhagwelir y bydd y grŵp yn parhau i gwrdd o bryd i'w gilydd, er mwyn craffu ar gamau'r CDLI Newydd yn y dyfodol.
Gofynnodd y Cadeirydd am ddatganiadau o ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp gorchwyl hwn.

PENDERFYNWYD: bod y Cynghorwyr Hunt, Henshaw, Chowdhury a Thomson wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r grŵp gorchwyl.

Nododd yr Aelodau yr ohebiaeth rhwng y pwyllgor a'r Cabinet.

64 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

65 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

24 Ebrill 2023 am 4.30pm